OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1628

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 2

### Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rhan 9**

**11.**—(1) Mae Rhan 9 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 27(1) a (2), yn lle "o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "o'r Rheoliad Iechyd Planhigion".

(3) Yn rheoliad 28—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a)—

(aa) ym mharagraff (ii), yn lle "â Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE" rhodder "â'r Rheoliad Iechyd Planhigion";

(bb) ym mharagraff (iv), yn lle'r geiriau o "o reolau iechyd" hyd at y diwedd rhodder "o'r rheolau iechyd planhigion yn cydymffurfio â'r rheol honno";

(ii) yn is-baragraffau (b), (c) ac (e), yn lle "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "y Rheoliad Iechyd Planhigion";

(b) ym mharagraff (6), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) dod ag unrhyw bersonau y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol; a";

(c) hepgorer paragraff (7);

(d) ym mharagraff (8), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), hepgorer "(ii)".

(4) Yn rheoliad 31(4)—

(a) hepgorer "eraill";

(b) hepgorer "(gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd)".

(5) Yn rheoliad 34(1), yn lle "Reoliad Iechyd Planhigion yr UE" rhodder "y Rheoliad Iechyd Planhigion".

(6) Yn rheoliad 35(1)—

(a) yn lle "mewn rhan arall o diriogaeth yr Undeb" rhodder "yn y Deyrnas Unedig neu i awdurdod Tiriogaeth Ddibynnol y Goron";

(b) yn lle "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE" rhodder "y Rheoliad Iechyd Planhigion".